**Cyngor Tref Amlwch Town Council**
Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fawrth Mai 26, 2026 am 7yh.
*Minutes of the Full Council meeting held at the Council Chamber, Tuesday May 26, 2026 at 7pm.*

**Presennol/Present:** Gareth Winston Roberts OBE, Gerry Belanger, Myrddin Owens, Meg Roberts, Julie Edwards, Gordon Warren, Noel Kerr, Llinos Knowles Williams, Geraint Thomas, John Gill, Aled Morris Jones

**Ymddiheuriadau/Apologies:** Gareth Thomas, Liz Wood, Alan Wood

**Yn bresennol/In attendance:** Carli Evans Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithu/translator)

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies**
Bu'r clerc groesawy pawb yn bresennol a diolch iddynt am eu presenoldeb.
*The clerk welcomed all present thanking them for their attendance.*

**2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**
Dim / *None*

**3 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd / To Elect Chair and Vice Chair**
Etholwyd Gerry Belanger yn Gadeirydd – cynnig Gareth Winston Roberts, eilio Myrddin Owens, cefnogwyd y cynnig yn ddi wrthwynebiad a bu Gerry Belanger gymryd y Gadair gan ddiolch i'w gyd aelodau am eu cefnogaeth.

Bu talu teyrnged i, a diolch am waith da diflino Gareth Winston Roberts ar ran y Cyngor tra yn y Gadair dros y blynyddoedd diwethaf. Bu yntau ddiolch am gefnogaeth ei gyd-aelodau.

Etholwyd Gareth Winston Roberts yn Is-gadeirydd – cynnig Meg Roberts, eilio Gordon Warren, cefnogwyd y cynnig yn ddi wrthwynebiad, a bu Gareth Winston Roberts ddiolch unwaith eto am gefnogaeth ei gyd aelodau ac am y fraint o gynrychioli'r Cyngor.

*Gerry Belanger was elected Chairman - proposed by Gareth Winston Roberts, seconded by Myrddin Owens, the proposal was supported without opposition and Gerry Belanger took the Chair thanking his fellow members for their support.*

*Tribute was paid to, and thanks for, the tireless good work of Gareth Winston Roberts on behalf of the Council while in the Chair over the past few years. He also thanked his fellow members for their support.*

*Gareth Winston Roberts was elected Vice-Chairman - proposed by Meg Roberts, seconded by Gordon Warren, the proposal was supported without opposition, and Gareth Winston Roberts thanked once again for the support of his fellow members and for the privilege of representing the Council.*

**4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**
Cymeradwywyd y cofnodion – cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts.
Gofynnwyd bod pwysleisio nad oedd y Cyngor yn gefnogol o'r datblygiad ar Lon Tan y Bryn, ac nad oedd derbyn unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd. Mae pryderon am lifogydd, carffosiaeth a dwr gwyneb yn parhau. Bydd disgwyl gweld y cais cynllunio am fwy o wybodaeth pan caiff ei gyflwyno.

*The minutes were approved - proposed by Myrddin Owens, seconded by Meg Roberts.*
*It was requested that it be emphasised that the Council was not supportive of the development on Lon Tan y Bryn, no plans were supported at present. Concerns about flooding, sewerage and surface water continue. Further information will be available once the planning application is submitted.*

**5 Materion yn Codi / Matters Arising**
5.1 Cadarnhawyd bod gwybodaeth pellach am sut mae penodi rhent canolraddol yn seiliedig ar y nifer o drigolion a'u sefyllfa cyflogaeth wedi ei rannu a'r aelodau drwy ebost.

*It was confirmed that further information about how intermediate rent was set based on the number of residents and their employment situation had been shared with the members by email.*

5.2 Nid oes dyddiad newydd wedi ei gadarnhau gyda perchnogion Safle Octel – mae'r cwmni wedi gohurio'r trefniadau dwy waith.

*No new date has been confirmed with the owners of the Octel Site - the company has postponed the arrangements twice.*

**6 Cyfarfodydd Allanol / External Meetings**

Cafwyd wybod gan Gareth Winston Roberts am gyfarfod gyda Nikki Jones (adran tai), Sheree Ellingworth (Medrwn Mon) a Iolo Hughes (Mon Actif). Mae'r tim wedi bod yn llwyddianus wrth ddiogelu £22k tuag at welliannau i'r trac beicio yng nghae Chwarae Craig y Don a bu diolch iddynt am eu gwaith. Mae gobeithio bydd y gwaith wedi ei gwblhau cyn dechrau gwyliau'r haf.

*Gareth Winston Roberts gave a report following a meeting with Nikki Jones (housing department), Sheree Ellingworth (Medrwn Mon) and Iolo Hughes (Mon Actif). The team have been successful in securing £22k towards improvements to the cycle track at Craig y Don playing field and they were thanked for their work. It is hoped that the work will be completed before the start of the summer holidays.*

**7 Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**

Cafwyd adroddiad gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Bu cymeradwyo nifer o daliadau a cafwyd wybod am balans cyfrifon banc y cyngor fel yr arfer. Ni fu unrhyw geisiadau am gefnogaeth i'w ystyried. Nodwyd bod archwiliad 2025-26 ar y gweill. Bu'r pwyllgor gofnodi diolch i'r clerc am ei gwaith. Bu tynnu sylw at waith sydd ei angen yn dilyn arolwg o'r asesiad diogelwch tan gan gynnwys hyfforddiant i'r sawl sydd a goriadau i'r adeilad. Bu argymell bod cynnwys eitem ar ddechrau pob cyfarfod er mwyn atgoffa'r sawl sy'n bresennol o'r trefniadau dianc petai'r larwm yn canu. Cafwyd ddiweddariad hefyd am bryniant y Llofft Hwyliau, gan nodi bydd posib oedi pellach tra bod gwaith cyfreithiol ychwanegol yn cael ei gwblhau er budd y Cyngor. Bu diolch i Myrddin Owens am ei adroddiad.

*Myrddin Owens gave a report following the committee's last meeting. A number of payments were approved and the balance of the council's bank accounts was reported as usual. There were no requests for funding be considered. It was noted that the 2025-26 audit is underway. The committee recorded thanks to the clerk for her work. Attention was drawn to work that is needed following a review of the fire safety assessment including training for keyholders. It was suggested that an item be included at the beginning of each meeting in order to remind those present of the evacuation procedure should the alarm go off. There was also an update on the purchase of the Sail Loft, noting that there will be a possible further delay while additional legal work is completed for the benefit of the Council. Myrddin Owens was thanked for his report.*

**8 Prosiectau Cyfalaf / Capital Projects**

Trafodwyd nifer o brosiectau posib i'w cynnwys o fewn prosiect Balchder Bro. Bu gytuno cael prisiau am y prosiectau canlynol a thrafod ymhellach unwaith bydd syniad o'r gost –

- Llwyfan gwylio Porth Llechog
- Hysbysfyrddau ym Mhorth Llechog a thu allan i Swyddfa'r Cyngor
- Trin rhannau o'r fynwent
- Uwchraddio Cloc y Dref
- Mynediad anabl i doiledau Borth Amlwch (cynllun wedi ei dderbyn gan CSYM)
- Gwella diogelwch – Porth Llechog

*A number of possible projects were discussed to be included within the Balchder Bro project. It was agreed to get prices for the following projects and discuss further once there is an idea of the cost -*

- *Bull Bay viewing platform*
- *Notice boards in Bull Bay and outside the Council Office*
- *Attention to parts of the cemetery*
- *Upgrade the Town Clock (autowinder)*
- *Disabled access to Amlwch Port toilets (plan provided by IACC)*
- *Improve Safety – Bull Bay*

**9 Diweddariad Adeiladau Porth Amlwch Port Buildings Update**

Cafwyd gwybodaeth gan Gareth Winston Roberts ynglyn a'r sefyllfa garffosiaeth, Cafwyd wybod bod CSYM wedi dod i gytundeb gyda Dwr Cymru, a bydd system garffosiaeth newydd yn cael ei osod maes o law yn ddi-gost i'r Cyngor Tref. Bu diolch i Tudur Jones CSYM am ei waith. Cafwyd wybod bod cwmni adeiladu wedi gofyn am ddefnyddio'r adeilad fel swyddfa am gyfnod o flwyddyn tra yn gweithio ym Mhorth Amlwch. Byddai talu rhent yn ogystal a chwblhau peth gwaith ar yr adeilad gan

gynnwys arolygon diogelwch. Bu'r Cyngor yn unfrydol gefnogol ar yr amod bod cytundeb wedi ei arwyddo gan y cwmni, Gareth Winston Roberts a'r clerc i drafod gyda'r cwmni ar ran y Cyngor.

*Gareth Winston Roberts gave an update regarding the situation with drainage and sewerage; it was learnt that that IACC had reached an agreement with Dwr Cymru, and a new sewerage system will be installed in due course at no cost to the Town Council. Tudur Jones IACC was thanked for his work. It was noted that a construction company had requested to use the building as a site office for a period of twelve months whilst working in the Port. The company would pay rent for the facility and also complete some work on the building including safety inspections. The Council was unanimously supportive on condition that an agreement is signed by the company, Gareth Winston Roberts and the clerk to discuss with the company on behalf of the Council.*

**10 CCTV**

Bu'r clerc dynnu sylw at gamerau oedd angen sylw a'r gost ynghlwm. Bu'r Cyngor gytuno blaenoriaethu tri ohonynt a gofyn i'r clerc wneud y trefniadau perthnasol.

Bu tynnu sylw at adroddiad comisiynydd yr heddlu ar ddarpariaeth gwasanaeth CCTV yng ngogledd Cymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o bryderon ynglyn a cost, gwerth am arian a cyfreithlondeb y gwasanaeth a gynnir ym mhob sir. Bu'r Cyngor gytuno gofyn am gyfarfod gyda swyddog cyllid yr heddlu ac arolygydd mon i drafod ymhellach.

Mae pryderon bydd y gost o gynnal y gwasanaeth yn cynyddu'n ormodol, mae'r Cyngor eisioes yn talu bron i £10k y flwyddyn tuag at CCTV, tra bod yr Heddlu yn cyfranu £2500 tuag at y gost. Nododd Myrddin Owens bod 10% o archeb dreth blynyddol y Cyngor yn cael ei wario ar ddarparu CCTV.

*The clerk pointed out cameras that needed attention and the cost involved. The Council agreed to prioritise three of them and asked the clerk to make the relevant arrangements.*

*Attention was drawn to the police commissioner's report on the provision of CCTV service in north Wales. The report draws attention to a number of concerns regarding cost, value for money and the legality of the service offered in each county. The Council agreed to request a meeting with the police finance officer and the Inspector for Anglesey to discuss further.*

*There are concerns that the cost of maintaining the service will increase too much, the Council already pays almost £10k a year towards CCTV, while the Police contribute £2500 towards the cost. Myrddin Owens noted that 10% of the Council's annual precept is spent on providing CCTV.*

**11 Cynllunio / Planning**

Ni fu ceisiadau cynllunio i'w ystyried. Bu nodi penderfyniadau CSYM fel a ganlyn:
*There were no planning applications to discuss. IACC decisions were noted as follows:*

- LUE/2025/2 Torllwyn – cyfreithlon/lawful
- FPL/2026/11 3 Queen Street – caniatad/approved
- FPL/2026/12 2 Mona Street – caniatad/approved
- HHP/2025-89 Borthwen, Amlwch – caniatad/approved

**12 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors**

12.1 Cafwyd diweddariad gan Aled Morris Jones am drafodaethau yn ymwneud a Grwp Canwio Amlwch a diogelwch pobl ifanc ym Mhorth Llechog; bu diolch iddo am ei waith.

*An update was given by Aled Morris Jones about discussions relating to the Amlwch Canoeing Group and the safety of young people in Bull Bay; he was thanked for his work.*

12.2 Bu gofyn am wybodaeth pellach am proses CSYM a'r amser mae teulu yn ei gael i wagio ty (cyngor) pan fydd aelod o'r teulu yn marw. Cafwyd trafodaeth sut bod gofyn i eiddo gael ei wagio yn ei gyfanrwydd, capedi, lloriau, cegin ayyb cyn i denantiaid newydd symud i fewn hyd yn oed os oedd mewn cyflwr da. Teimlwyd y byddai asesu'r eiddo yn drylwyr y arbed gwaith, arian ac yn well i'r amgylchedd gydag llai o wastraff.

*Further information was requested about the IACC process, and the time a family has, to vacate a (council) house when a family member dies. There was a discussion about how a property was required to be emptied in its entirety, carpets, floors, kitchen etc. before new tenants moved in even if it was in good condition. It was felt that assessing the property thoroughly would save work, money and be better for the environment with less waste.*

12.3 Bu Myrddin Owens ofyn am ddiweddariad gan Aled Morris Jones yn dilyn cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd i drafod darpariaeth ar gyfer plant bregus. Bu Aled Morris Jones gytuno holi'r adran addysg eto.

*Myrddin Owens asked for an update from Aled Morris Jones following a meeting at the Primary School to discuss provision for vulnerable children. Aled Morris Jones agreed to follow up with the education department.*

12.4 Bu tynnu sylw at raddfeydd tal pennaethiaid ysgolion gan nodi nad oedd cynydd gyda chynydd yn y nifer o ddisgyblion a chyfrifoldebau. Nodwyd bod problem cyffredinol denu pennaethiaid a bu gofyn i CSYM edrych ar eu trefn hyrwyddo a phenodi ar gyfer cyfleon o'r fath.

*Attention was drawn to the pay scales of school headteachers noting that there was no increase with an increase in the number of pupils and responsibilities. It was noted that there was a general problem of attracting headteachers and the IACC was asked to look at their promotion and appointment procedure for such opportunities.*

**13 Gohebiaeth / Correspondence**

Cadarnhawyd bod unrhyw eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon at aelodau drwy ebost wrth eu derbyn.

*It was confirmed that all items of correspondence had been shared with members via email as received.*

**14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn i'w gynnal nos Fawrth, Mehefin 23 2026 am 7yh.
*The next Full Council meeting will be held Tuesday, Mehefin 23 2026 at 7pm.*

Bu'r cyfarfod orffen am 7.50yh / *The meeting closed at 7.50pm*

**Gerald Belanger**
**Cadeirydd/Chair**
**Cyngor Tref Amlwch Town Council**
CET05-26